**RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ac yn rhithwir ar Zoom Ddydd Mercher, 4 Medi 2024.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar gael ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

**Yn bresennol:** Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)
Cynghorydd Neville Evans (Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff M Evans, T Ll Hughes MBE, R Ll Jones, Jackie Lewis, Dafydd Roberts, Alwen Pennant Watkin a Liz Wood.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Glyn Haynes, John Ifan Jones a Robin Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Aelodau Lleol: Cynghorwyr Margaret M Roberts ac Ieuan Williams (ar gyfer cais 7.1), Non Dafydd, Paul Ellis a Dylan Rees (ar gyfer cais 7.3), Douglas Fowlie (car gyfer ais 7.4).

1.00 yp – 3.00 yp

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIADAU SAFLE** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau safle a gynhaliwyd ar 15 Awst 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar eu diwygio i nodi ymddiheuriad y Cynghorydd Jackie Lewis. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | 7.1 FPL/2024/64 – FPL/2024/64 - Cais llawn i ddymchwel y tŷ presennol ynghyd â chodi annedd yn ei le a chadw'r fynedfa, lôn a llefydd parcio newydd i gerbydau yn Nhyddyn Dylifws, Tyn y Gongl<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.**<br><br>7.2 FPL/2024/40 - Cais llawn i ddefnyddio'r iard bresennol i leoli cynwysyddion storio yng Nghlwb Golff Ynys Môn, Ffordd yr Orsaf, Rhosneigr<br><br>**Penderfynwyd cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog am y rhesymau a nodwyd ac i awdurdodi'r Swyddogion i osod amodau cynllunio priodol ynghlwm â'r caniatâd yn cynnwys gwaith tirweddu i liniaru unrhyw effaith weledol.**<br><br>7.3 FPL/2023/15 – Cais llawn i godi 15 annedd fforddiadwy, creu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr a chreu ffordd fewnol, ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir ger Haulfryn, Scotland Terrace, Bodffordd<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn uno ag argymhelliad y swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad ac ar lofnodi cytundeb Adran 106 i sicrhau bod darpariaeth tai fforddiadwy ynghyd â chyfraniad ariannol i'r ysgol ac ar gyfer mannau agored. Awdurdodi'r Swyddogion i addasu a/neu ychwanegu at yr amodau fel bo'n briodol.**<br><br>7.4 FPL/2024/66 – Cais llawn i godi sied amaethyddol ym Mryncelli Ddu, Llanddaniel<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath yn y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath yn y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath yn y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | 12.1 FPL/2023/173 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr hen dafarndy (Dosbarth Defnydd A3) i fod yn gyfleuster gofal preswyl (Dosbarth Defnydd C2) ynghyd â'i addasu a’i ehangu yn Mostyn Arms, Ffordd Cynan, Porthaethwy.<br><br>**Penderfynwyd cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol.**<br><br>12.2 CAR/2024/40 - Cais o dan Adran 73 er mwyn newid amodau (01) (manylion materion a gadwyd yn ôl), (02) (caniatâd materion a gadwyd yn ôl), (05) (rhaglen lliniaru archeolegol), (06) (cynllun draenio), (07) (cynllun halogi), (08) (cynllun monitro a chynnal a chadw), (11) (cynllun tirlunio), a (17) (manylion materion a gadwyd yn ôl) o ganiatâd cynllunio VAR/2022/36 (codi 7 uned fusnes) er mwyn diwygio geiriad yr amodau, â chyflwyno strategaeth newydd yn raddol yn hen safle Peboc, Llangefni.<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad ac i dderbyn gwybodaeth ecolegol yn unol â sylwadau’r swyddog ecolegol. Dirprwyo’r awdurdod i Swyddogion i ddod i benderfyniad ar y cais unwaith y bydd yr wybodaeth ecolegol wedi dod i law ac i ddefnyddio pwerau dirprwyedig i osod unrhyw amodau cyn dechrau datblygu’r** |

| | |
|---|---|
| | **safle.**<br><br>12.3 FPL/2022/289 - Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd bresennol ynghyd â chodi annedd a garej newydd ynghyd â gwaith cysylltiedig yn Ynys y Big, Ffordd Biwmares, Glyn Garth, Porthaethwy<br><br>**Penderfynwyd cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelodau Lleol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | 13.1 D56/2024/2 - Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer gosod 3 polyn tripod hunangynhaliol yn cefnogi erial yr un, 2 ddysgl trosglwyddo, hambwrdd cebl lliw, cabinet mesurydd trydan a datblygiad ategol yn Queens Park Court, Queens Park, Caergybi<br><br>**Nodwyd yr wybodaeth.** |